**Natur Ar Eich Stepen Drws**

AMGUEDDFA CYMRU


# Ffosilau Penarth

Ffurfiwyd cerrig lliwgar Penarth dros 200 miliwn o flynyddoedd yn ôl ac maen nhw'n adrodd stori anhygoel am newidiadau i'r hinsawdd a lefel y môr. Edrychwch am ffosilau yn y cerrig bach rhydd a'r cerrig ar y traeth.

**Cadwch draw oddi wrth y clogwyni gan eu bod yn ansefydlog iawn a gall cerrig gwympo ar unrhyw adeg.**

004

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod, ewch i amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws




**Jwrasig**

Haenau o gerrig calch glas/llwyd a mwd am yn ail. Wedi'u ffurfio mewn moroedd clir, cynnes, bas. Bydd mwyafrif y ffosilau wedi dod o'r gwelyau hyn.

**Peidiwch morthwylio'r clogwyni, na ffosilau mewn haenau o garreg solet.**

**Triasig**

Cerrig llaid gwelw mewn moroedd bas a lagynau. Mae marciau tonnau bach a chraciau mwd yn gyffredin. Ychydig o ffosilau.

Roedd cerrig llaid tywyll yn cael eu dyddodi mewn moroedd bas. Ffurfiwyd Gwlâu Asgwrn yn cynnwys darnau o ffosil yn ystod stormydd garw.

Mwd gwyrdd, llwyd a choch mewn moroedd bas a lagynau. Ychydig o ffosilau.

Cerrig coch, gyda thalpiau mawr pinc a gwyn y mwyn alabastr. Wedi'i ffurfio o amgylch llynnoedd mewn anialdiroedd.



**Braciopodau**
*Calcirhynchia*
(1 i 1.5 cm)



**Amonit**
*Schlotheimia*
(hyd at 12 cm)



**Cregyn deufalf**
*Plagiostoma*
(hyd at 20 cm)



**Cregyn deufalf**
*Liostraea*
(hyd at 5 cm)



**Cregyn deufalf**
*Chlamys*
(hyd at 10 cm)



**Cregyn deufalf**
*Cardinia*
(hyd at 5 cm)



**Dannedd ymlusgiad morol**
*Ichthyosaurus*



**Fertebra ymlusgiad morol**
*Ichthyosaurus*
(rhan o'r asgwrn cefn)



**Tomfaen**
Carthion ffosiliedig ichthyosoriaid ac ymlusgiaid morol eraill.



**Tonnau bach a chraciau mwd**
Tystiolaeth o ddŵr bas iawn.



**Eidion**
Mwyn calsit ffibrog sy'n bresennol mewn siâl. Yn edrych fel cig.



**Alabastr**
Mwyn sy'n ffurfio drwy anweddiad mewn anialdiroedd Triasig poeth.